

Iaith sicrwydd

*“Oherwydd nid ysbryd caethiwed sydd unwaith eto ’n peri ofn yr ydych wedi ei dderbyn, ond Ysbryd mabwysiad, yr ydym trwyddo yn llefain, ‘Abba! Dad!’”
(adn. 15)*

Beth am ddarllen Rhufeiniaid 8:1–17 ac yna myfyrio

Yr ydym am fyfyrio ar y gwirionedd bendigedig yma o gyfiawnhad trwy ffydd am un diwrnod yn ychwanegol, a’r holl gwestiwn o sicrwydd personol. Yn y darlleniad, yr ydym wedi adnabod iaith *sicrwydd*. Oherwydd ein bod yn ‘blant’, fe’n gorchmynnir i lefain “*Abba, Dad!*” Mae rhywun wedi dweud, ‘Dim ond mab all adnabod y Mab.’ Dyma un o’r gwirioneddau efengylaidd mwyaf bendigedig. Mae’n cadarnhau nawr yn y bywyd yma y gall gŵr neu wraig adnabod y tu hwnt i bob amheuaeth eu bod yn blentyn Duw.

Yn adnod 16, mae Paul yn dweud fod yr Ysbryd ei hun yn tystiolaethu gyda’n hysbryd ni ein bod yn blant Duw. All unrhyw beth fod yn fwy clir? Caniatewch i hyn fod yn ganlyniad y mater: mae sicrwydd personol o iachawdwriaeth personol yn bosibl. Nid honiad balchder, ond, yn hytrach, yn ddoethineb i’w geisio er y ffug ostyngedd rwydd sydd yn perthyn i’r Philistiaid yn ein plith, y bobl sydd am wadu fod sicrwydd yn bosibl. I mi, mae’n anghredadwy fod unrhyw un sydd wedi darllen y Beibl yn medru dadlau yn erbyn hyn.

Mae’n angenrheidiol, felly, fod y rhai hynny, sydd wedi eu perswadio ynglŷn â chyfiawnhad trwy ffydd, yn onest ac yn agored os ydynt mewn eglwys lle mae ffynnon y gwirionedd yma wedi ei chau. Rhaid i ni ddilyn esiampl Isaac, gan symud y sbwriel y mae’r Philistiaid yma wedi ei adael, trwy weddi a thrafodaeth, fel bod pobl unwaith eto yn cael mynedfa i’r ffynnon ddŵr sydd ar waelod y ffynnon Feiblaidd hon. Does dim i sefyll rhwng pobl a bendith Duw. Rwyf am eich gwahodd i ymrwymo i wneud hynny.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

2 Cor. 1:18–22; Gal. 4:4–7; 1 Ioan 4:13–16

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth yw gwarant ein hiachawdwriaeth?
2. Sut y gallwn alw Duw yn Dad?

Gweddi

O Dad, cynorthwya fi i weddïo, i sefyll yn gryf ac yn gadarn ar y gwirionedd bendigedig hwn, a dwyn grym gweddi ar y sefyllfaoedd hynny lle mae’r gwirionedd yn cael ei danseilio. Rwy’n gofyn hyn yn enw Iesu. Amen.